COMISIYNWYR Elusennau

ar gyfer Lloegr a Chymru

Rheoli Trafferthion Ariannol a Methdaliad mewn Elusennau

CC 12

Medi 2004

Rheoli Trafferthion Ariannol a Methdaliad mewn Elusennau

Cynnwys Tudalen

Am beth mae'r canllaw hwn? 2

Ystyr geiriau ac ymadroddion a ddefnyddir 3

Beth yw ansolfedd? 5

Y gyfraith 5

Profion ansolfedd 7

Dangosyddion 8

Parhau pan fo'n ymddangos bod elusen yn ansolfent 9

Camau gweithredu ataliol 9

Rheoli a rheolaeth ariannol 10

Strwythur cronfeydd 13

Asedau sefydlog swyddogaethol 13

Polisi cronfeydd wrth gefn 14

Adnabod asedau a rhwymedigaethau a'u gwerth 14

Delio â sefyllfa ansolfent 15

Delio â phrinder adnoddau sy'n dod i mewn 17

Ailstrwythuro gweithrediad yr elusen 18

Ailariannu 18

Trefniadau gwirfoddol cwmnïau 19

Atebolrwydd ymddiriedolwyr 19

Dyletswydd ymddiriedolwyr 19

Elusennau anghorfforedig 19

Cwmnïau elusennol 20

Ymddiriedolwyr corfforedig 22

Ymddiriedolwyr gwarchod ac ymddiriedolwyr daliannol 22

Rôl y Comisiwn Elusennau 23

Diddymu elusennau ansolfent 24

Dyletswyddau cyfreithiol i gadw'r Gofrestr yn gyfoes 24

Cwmnïau elusennol 25

Elusennau anghorfforedig 25

Atodiad 27

Mathau o weithrediadau 27

Mathau o ddiddymu 30

Newidiadau pwysig ers y fersiwn blaenorol o'r canllaw hwn 32

Am beth mae'r canllaw hwn?

1. Mae gan bob ymddiriedolwr elusen ddyletswydd sylfaenol i warchod asedau'r elusen a'u defnyddio'n briodol ar gyfer amcanion yr elusen. Oherwydd yr amrywiaeth o weithgareddau a ffynonellau arian, bydd nifer o elusennau ar ryw adeg yn wynebu ansicrwydd ariannol. Os yw'r elusen mewn trafferthion ariannol, gall y perygl o ansolfedd fod yn fwy os nad yw'r ymddiriedolwyr yn gweithredu i ymdrin â'r sefyllfa.

2. Nod y canllaw hwn yw darparu cyngor i ymddiriedolwyr elusennau, gan amlinellu'r camau y gellir eu cymryd i leihau'r perygl o ansolfedd a disgrifio'r sefyllfa gyfreithiol. Gall ansolfedd posib fod yn fater cymhleth a manwl; gall fod angen cyngor proffesiynol ac argymhellwn ei fod yn cael ei gymryd fel y bo'n briodol.

3. Mae'r egwyddorion yn y canllaw hwn yn berthnasol i bob elusen. Os cafodd yr elusen ei ffurfio dan ei Deddf Seneddol ei hun neu os cafodd ei hymgorffori gan Siarter Frenhinol neu Freintlythyrau, gall rhai o'r manylion fod yn wahanol.

Ystyr geiriau ac ymadroddion a ddefnyddir

4. Yn y canllaw hwn:

"**Busnes gweithredol**" yw gallu sefydliad i barhau i weithredu yn y dyfodol agos.

Cronfeydd gwaddoliad yw cronfeydd y mae'n ofynnol yn gyfreithiol i'r ymddiriedolwyr fuddsoddi neu eu cadw a'u defnyddio at ddibenion yr elusen. Gall gwaddoliad fod yn wariadwy neu'n barhaol. Mae pŵer gan yr ymddiriedolwyr ddefnyddio **gwaddoliad gwariadwy** at ddibenion yr elusen.

Cronfeydd incwm anghyfyngedig yw cronfeydd sydd i'w gwario yn ôl disgresiwn yr ymddiriedolwyr er mwyn hyrwyddo amcanion yr elusen.

Cronfeydd incwm cyfyngedig yw cronfeydd sydd i'w defnyddio ar gyfer dibenion penodol, a bennwyd, er enghraifft, gan y rhoddwr(wyr) neu delerau'r apêl gyhoeddus, o fewn (ond yn fwy cyfyng nag) amcanion yr elusen.

Cwmni elusennol yw elusen sy'n gwmni a ffurfiwyd ac a gofrestrwyd dan y Ddeddf Cwmnïau 1985, neu y mae darpariaethau'r Ddeddf honno yn berthnasol iddo.

Deddf 1993 yw Deddf Elusennau 1993, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Elusennau 2006.

Deddf Ansolfedd yw Deddf Ansolfedd 1986, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Ansolfedd 2000 a Deddf Menter 2002.

Dogfen lywodraethol yw unrhyw ddogfen sy'n pennu dibenion yr elusen ac, fel arfer, y dull o'i gweinyddu. Gall fod yn weithred ymddiriedolaeth, yn gyfansoddiad, yn femorandwm ac erthyglau cymdeithasu, yn Gynllun gan y Comisiynwyr, yn drawsgludiad neu'n ewyllys.

Elusen anghorfforedig yw ymddiriedolaeth neu gymdeithas elusennol.

Gwaddoliad parhaol yw eiddo'r elusen (gan gynnwys tir, adeiladau, arian parod neu fuddsoddiadau) nad oes modd i'r ymddiriedolwyr eu dihysbyddudefnyddio fel pe bai'n incwm. Rhaid iddo gael ei ddal yn barhaol, weithiau i'w ddefnyddio i hybu dibenion yr elusen, weithiau i gynhyrchu incwm i'r elusen. Fel rheol ni all yr ymddiriedolwyr wario gwaddoliad parhaol heb ein hawdurdod.

Gall telerau'r gwaddoliad ganiatáu i asedau o fewn y gronfa gael eu gwerthu a'u hail-fuddsoddi, neu gallant ddarparu bod rhai neu'r cyfan o'r asedau yn cael eu cadw am gyfnod amhenodol (er enghraifft, adeilad arbennig).

Is-gwmni masnachu yw unrhyw gwmni masnachu anelusennol, y mae'r mwyafrif ohono ym mherchnogaeth un neu ragor o elusennau sy'n ymgymryd â gweithgareddau masnachu ar ran yr elusen/elusennau gyda'r nod o godi arian mewn ffordd dreth-effeithlon.

Ymarferwr ansolfedd (**YM**) yw unigolyn sy'n gymwys dan Ran XIII Deddf Ansolfedd i weithredu mewn swyddi amrywiol, gan gynnwys, yn achos ansolfedd corfforaethol, fel diddymwr, gweinyddwr, derbynnydd gweinyddol neu enwebai / arolygydd trefniadau gwirfoddol cwmni. Yn achos ansolfedd personol, mae'n golygu unigolyn sy'n gymwys dan y Rhan honno o'r Ddeddf

Ansolfedd i weithredu mewn rhinweddau amrywiol, gan gynnwys fel ymddiriedolwr mewn achos o fethdaliad, derbynnydd dros dro, neu enwebai/arolygydd trefniadau gwirfoddol. Mae'n drosedd i weithredu heb fod yn gymwys.

Ymddiriedolwyr elusen yw'r bobl sydd, dan ddogfen lywodraethol yr elusen, yn gyfrifol am reoli gweinyddiad yr elusen yn gyffredinol. Yn nogfen lywodraethol yr elusen gallant gael eu galw'n ymddiriedolwyr, yn ymddiriedolwyr rheoli, yn aelodau pwyllgor, neu'n llywodraethwyr, neu gellir cyfeirio atynt gan ryw deitl arall. Ystyr **cyfarwyddwyr** yw ymddiriedolwyr elusennau cwmni elusennol.

Defnyddir **rhaid** neu **angen** i gyfeirio at y camau y mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr, neu eu hasiantau neu eu gweithwyr cyflogedig, eu cymryd yn ôl y gyfraith.

Pan fyddwn yn defnyddio termau fel **dylai'r** ymddiriedolwyr neu **awgrymwn**, **argymhellwn** neu **cynghorwn** cyfeiriwn at y camau y gallai'r ymddiriedolwyr, eu hasiantau neu eu gweithwyr eu cymryd ac sy'n arfer dda yn ein barn ni, ond nid yw'n ofynnol iddynt eu cymryd yn ôl y gyfraith.

Beth yw ansolfedd?

Y gyfraith

5. Mae'r Ddeddf Ansolfedd yn amlinellu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer pennu a datrys ansolfedd ar gyfer cwmnïau elusennol. Argymhellwn fod ymagwedd debyg yn cael ei mabwysiadu ar gyfer elusennau anghorfforedig, fel mater o arfer dda.

6. Mae cwmnïau elusennol yn "bersonau cyfreithio", yn gallu bod atebol, ac yn gallu bod yn "ansolfent". Gellir ystyried bod elusen o'r fath yn "ansolfent" naill ai:

- pan nad yw'n gallu talu ei dyledion pan fyddant yn daladwy; neu

- pan fydd gwerth ei hasedau yn llai na swm ei rhwymedigaethau gan ystyried ei rhwymedigaethau posib a disgwyliedig.

7. Mae gan y ddau brawf yma sail gyfreithiol ar gyfer **cwmnïau elusennol**, gan eu bod yn agweddau ar y diffiniad o anallu i dalu dyledion yn adran 123 y Ddeddf Ansolfedd. (Gweler paragraff 10 ar gyfer y sefyllfa pan fydd cwmni elusennol yn gweithredu fel ymddiriedolwr.)

8. Nid yw elusennau anghorfforedig yn "bersonau cyfreithiol" ac yn dechnegol ni allant gael rhwymedigaethau, a'r ymddiriedolwyr sy'n gweithredu ar eu rhan sy'n cael y rhwymedigaethau hyn yn lle hynny. Felly ni all elusennau anghorfforedig, yn dechnegol, fod yn ansolfent. Fodd bynnag, gall elusen fod mewn sefyllfa ariannol lle mae gwerth yr asedau yn yr ymddiriedolaeth sydd ar gael i'r ymddiriedolwyr i fodloni eu rhwymedigaethau (gweler isod) yn annigonol. Yng nghyd-destun elusennau anghorfforedig defnyddir "ansolfedd" i ddisgrifio'r sefyllfa hon, a gall y profion y cyfeirir atynt ym mharagraff 6 fod yn berthnasol wrth benderfynu a yw elusen anghorfforedig yn y sefyllfa hon neu beidio.

9. Ar yr amod bod y penderfyniad i dderbyn rhwymedigaeth ar ran yr elusen wedi cael ei wneud yn briodol (ee mewn cyfarfod lle y rhoddwyd rhybudd llawn i bob un o'r ymddiriedolwyr), mae pob ymddiriedolwr yn rhannu cyfrifoldeb am y rhwymedigaeth honno, oni bai fod telerau'r cytundeb y mae'r rhwymedigaeth yn deillio ohono yn datgan fel arall. Fel rheol mae hawl ddigolledu gan ymddiriedolwyr at asedau'r ymddiriedolaeth er mwyn ad-dalu'r rhwymedigaethau a gafwyd yn

briodol. Yn y rhan fwyaf o amgylchiadau mae'r cyfrifoldeb a'r hawl ddigolledu yn aros hyd yn oed ar ôl i unigolyn ymddeol fel ymddiriedolwr (ond sylwer nad dyma'r achos pan fydd y rhwymedigaeth yn codi o gontract cyflogaeth - mae unrhyw hawliadau yn erbyn yr ymddiriedolwyr dan y contract hwnnw yn hawliadau yn erbyn y corff ymddiriedolwyr fel y mae y pryd hynny). Yr hyn y dylai'r ymddiriedolwyr ei ystyried yw, oni bai fod y dyledion a'r rhwymedigaethau wedi codi ar y sail y bydd rhaid eu bodloni dim ond os oes digon o arian yn yr ymddiriedolaeth i wneud hynny, efallai bydd rhaid i'r ymddiriedolwyr dalu'r dyledion a bodloni'r rhwymedigaethau yn bersonol os nad oes digon o arian yn yr ymddiriedolaeth.

10. Mae sefyllfa cwmni elusennol mewn perthynas â gwaddol parhaol a'r cronfeydd incwm cyfyngedig y mae'n eu dal fel ymddiriedolwr fel yr hyn a ddisgrifir ym mharagraff 9 ar gyfer ymddiriedolwyr elusen unigol (ni all cwmni ddal cronfeydd o'r fath fel rhan o'i eiddo corfforaethol ei hun oherwydd mae cwmni yn rhydd i wario unrhyw ran neu ei holl eiddo). Nid yw cronfeydd a ddelir gan gwmni fel ymddiriedolwr yn rhan o eiddo'r cwmni at ddibenion y gyfraith ansolfedd corfforaethol.

Profion ansolfedd

11. Gellir ystyried y cyntaf o'r profion y cyfeirir atynt ym mharagraff 6 fel prawf diddymu llif arian neu dymor byr. Mae'n dangos a oes gan elusen ddigon o adnoddau (arian parod, dyledwyr tymor byr, buddsoddiadau ac ati) i fodloni ei holl rwymedigaethau uniongyrchol a pharhau i wneud hynny yn y tymor byr. Bydd yr hyn sy'n cael ei ystyried yn "dymor byr" yn amrywio yn ôl amgylchiadau pob elusen, ond fel rheol bydd modd ei adnabod o'r cyfnodau cyllidebol amrywiol a fabwysiedir. Yn arbennig

mae angen rhagolwg llif arian manwl sy'n dangos y derbyniadau a'r taliadau a ddisgwylir yn ystod y cyfnod dan sylw fel rheol.

12. Mae'r ail brawf yn brawf mantolen ac yn canolbwyntio ar sefyllfa asedau cyffredinol yr elusen. Bydd yn dangos a oes gan yr elusen ddigon o asedau (sefydlog a chyfredol) i fodloni ei holl rwymedigaethau gwirioneddol a disgwyliedig, yn y tymor hir a'r tymor byr.

Dangosyddion

13. Mae nifer o ddangosyddion eraill sy'n awgrymu bod yr elusen mewn perygl posib o fod yn ansolfent. Nid yw'n ymarferol rhoi rhestr gynhwysfawr oherwydd bydd y sefyllfa yn amrywio o un elusen i'r llall, ond rhoddir cyngor cyffredinol yma a all fod yn ddefnyddiol.

14. Mae rhai arwyddion cyffredinol o drafferthion posib yn cynnwys:

- asedau cyfredol a buddsoddiadau yn llai na rhwymedigaethau cyfredol (gweler paragraff 11);
- cyfanswm asedau ac incwm rhagweladwy yn llai na chyfanswm rhwymedigaethau a gwariant disgwyliedig (gweler paragraff 12);
- gorfod gwario o'r cronfeydd wrth gefn yn gyson oherwydd nid yw'r adnoddau sy'n dod i mewn yn ddigon i fodloni holl ymrwymiadau'r elusen;
- angen darparu gwarant ychwanegol ar gyfer benthyciadau tymor hir; a
- chredydwyr sy'n pwyso ar yr elusen am daliadau sy'n ddyledus.

15. Ni ddylid edrych ar y dangosyddion hyn ar eu pennau eu hunain. Maent yn ddangosyddion eang a byddai angen dadansoddiad manwl pellach cyn y gellid dod i unrhyw gasgliad ynghylch ansolfedd.

16. Dylid edrych ar ddangosyddion mewn perthynas â mathau gwahanol o gronfeydd hefyd, hy incwm anghyfyngedig neu gronfeydd cyfyngedig (incwm a gwaddol). Gellir defnyddio asedau o fewn cronfeydd cyfyngedig dim ond i fodloni rhwymedigaethau y gellir eu priodoli'n briodol i weinyddiad y cronfeydd hynny at y dibenion y cânt eu dal ar eu cyfer.

Parhau pan fo'n ymddangos bod elusen yn ansolfent

17. Er gwaethaf methu'r profion ac ymddangos yn ansolfent, mae nifer o sefydliadau yn parhau i fod yn fusnesau gweithredol ac ni chânt eu gorfodi i ddirwyn i ben. Gall fod yn ofynnol i elusennau, yn y tymor byr, weithredu uwchben telerau credyd a gytunwyd, neu ddefnyddio ariannu tymor byr, tra eu bod yn aros am swm mawr disgwyliedig o arian parod. Gall hyn godi, er enghraifft, yn achos oedi gweinyddol wrth dalu grant.

18. Argymhellwn fod ymddiriedolwyr unrhyw elusen sy'n ymddangos ei bod yn ansolfent yn ceisio cyngor proffesiynol gan ymarferwr ansolfedd cyn cymryd unrhyw gamau adferol. Mae gwefan y Gwasanaeth Ansolfedd yn cynnwys cronfa ddata o'r holl ymarferwyr ansolfedd a gellir ei chyrchu ar www.insolvency-service.co.uk/newipsearch

Camau gweithredu ataliol

19. Gall ansolfedd ddigwydd dros nos, er enghraifft os yw elusen yn dibynnu ar incwm grant sy'n cael ei gwtogi ac nid yw ffynonellau

incwm eraill yn dod yn ei le. Gall hefyd ddigwydd yn araf dros sawl blwyddyn ac nid yw'n cael ei ystyried nes bod yr elusen yn methu ariannu ei gweithgareddau mwyach.

20. Mae'n hanfodol i gorff ymddiriedolwyr gael gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'r elusen a'i materion ariannol. Er y gall fod yn anodd osgoi methiant dros nos, hyd yn oed os yw'n cael ei ragweld ymlaen llaw, dylai fod modd rhwystro neu oedi ansolfedd.

21. Gellir crynhoi'r camau sydd angen eu cymryd fel "rheolaeth a rheoli effeithiol". Yr ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am greu'r amgylchedd hwn, ond bydd yn cynnwys yr holl aelodau staff boed yn gyflogedig neu'n wirfoddolwyr. Gall ymddiriedolwyr ddarllen ein canllaw **Nodweddion Elusen Effeithiol** (**CC60**).

Rheoli a rheolaeth ariannol

22. Dylai'r corff ymddiriedolwyr gynnwys pobl sy'n gallu neilltuo amser i redeg yr elusen ac sy'n meddu ar y sgiliau a'r galluoedd priodol.

23. Dylai fod cyfarfodydd ymddiriedolwyr rheolaidd lle mae adroddiadau ariannol yn cael eu darparu a'u hystyried yn llawn.

24. Argymhellwn fod cyllidebau, gan gynnwys rhagamcaniadau arian parod a chynlluniau busnes yn cael eu cynhyrchu yn flynyddol o leiaf. Mae'n haws rhagweld gwariant nag incwm yn aml ac felly mae'n bwysig bod rhagamcaniadau gwariant yn cynnwys yr holl rwymedigaethau a threuliau annisgwyl y gwyddys amdanynt.

25. Wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen dylid monitro'r canlyniadau yn erbyn y gyllideb. Argymhellwn fod yr ymddiriedolwyr yn adolygu'r sefyllfa ariannol unwaith y mis o

leiaf, ond bydd hyn yn amrywio yn ôl maint a sefydlogrwydd yr elusen. Gall dadansoddiad priodol o dueddiadau ac amrywiadau ariannol o'r gyllideb gynorthwyo wrth adnabod problemau ariannol yn gynnar.

26. Dylid dadansoddi ffynonellau incwm a gwariant, gan nodi cydrannau allweddol. Mae peryglon ansolfedd yn cael eu lleihau trwy gael amrywiaeth o ffynonellau incwm a chraidd o gyllid diogel, gan osgoi gorddibynnu ar unrhyw un ffynhonnell. Efallai y bydd angen nodi problemau posib fel ansicrwydd ynglŷn ag arian grantiau a chymalau cosbau o fewn contractau - am wybodaeth ychwanegol ynghylch contractau gweler ein canllaw **Elusennau a Darparu Gwasanaeth Cyhoeddus - Cyflwyniad a Throsolwg** (**CC37**).

27. Cynghorwn ymddiriedolwyr i geisio a chymryd cyngor proffesiynol cyn ymgymryd â rhai trafodion a all greu ymrwymiadau ariannol sylweddol yn y dyfodol fel contractau adeiladu, trefniadau prydles a benthyciadau. Dylai'r ymddiriedolwyr fodloni eu hunain y bydd yn bosib bodloni ymrwymiadau o'r fath yn llawn. Gall ymddiriedolwyr elusennau anghorfforedig wynebu perygl uwch o atebolrwydd personol os oes rhaid bodloni ymrwymiadau ariannol o ffynhonnell incwm ansicr yn y dyfodol.

28. Os oes buddsoddiadau gan elusen argymhellwn fod yr ymddiriedolwyr yn sicrhau bod gweithdrefnau yn eu lle ar gyfer monitro perfformiad. Rhaid iddynt ystyried yr angen i gynnal portffolio amrywiol. Fel rheol bydd angen ceisio cyngor proffesiynol priodol wrth fuddsoddi arian elusennol. Mae hyn yn cynnwys buddsoddiadau a awdurdodwyd mewn is-gwmnïau masnachu os ydynt er lles gorau'r elusen. Mae dyletswydd ar ymddiriedolwyr i sicrhau bod y meini prawf buddsoddi, a nodwyd yn **Elusennau a**

Masnachu (**CC35**), wedi cael eu bodloni'n briodol a'u bod yn ymgymryd ag adolygiadau rheolaidd o ddichonoldeb parhaus yr is-gwmni. Gellir cael rhagor o wybodaeth am hyn yn ein cyhoeddiad **Buddsoddi Arian Elusennau: Egwyddorion Sylfaenol** (**CC14**).

29. Argymhellwn fod rheolaethau ariannol mewnol cryf yn cael eu sefydlu. Gweler ein cyhoeddiad **Rheolaethau Ariannol Fewnol i Elusennau** (**CC8**).

30. Mae hyn yn cynnwys ystyried Treth ar Werth (TAW), treth incwm trwy Dalu Wrth Ennill (TWE) a rhwymedigaethau Yswiriant Gwladol. Mae'r rhain i gyd yn rhwymedigaethau statudol a gall camgymeriadau yn y cyfrifon greu rhwymedigaethau a chosbau mawr ac annisgwyl. Ni allwn roi cyngor ar faterion treth - dylai ymddiriedolwyr gysylltu â Gwasanaeth Cyngor Cenedlaethol Tollau Tramor a Chartref (08450 109000) neu Linell Gymorth Cyllid y Wlad Elusennau (08453 020203), fel y bo'n briodol.

31. Gallai damwain annisgwyl sy'n arwain at golled i'r elusen neu gais yn ei herbyn gan drydydd parti achosi anawsterau ariannol i'r elusen a gall hyd yn oed arwain at ansolfedd. Mae modd diogelu yn erbyn colledion o'r fath trwy brynu mathau gwahanol o yswiriant; bydd yr union yswiriant a fydd yn fwyaf priodol yn amrywio o elusen i elusen, yn dibynnu ar amgylchiadau a gweithgareddau'r elusen. Cewch ragor o fanylion yn ein canllaw **Elusennau ac Yswiriant** (**CC49**).

32. Hefyd mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr ystyried rheolaethau heblaw rheolaethau ariannol. Heb fynd i fanylion gall y rhain gynnwys rheolaethau trefniadaethol i gael y gorau o berfformiad staff a sicrhau bod yr elusen yn gweithredu yn unol â'i

hymddiriedolaethau a disgwyliadau ei buddiolwyr a'r cyhoedd sy'n cyfrannu at yr elusen.

Strwythur cronfeydd

33. Dylid dosbarthu holl gronfeydd yr elusen rhwng:

- cronfeydd incwm anghyfyngedig;
- cronfeydd incwm cyfyngedig; a
- chronfeydd gwaddol (gwaddol parhaol neu waddol gwariadwy).

34. Mae'n dor-ymddiriedaeth i ddefnyddio cronfeydd cyfyngedig at ddibenion heblaw'r rheiny y cawsant eu rhoi ar eu cyfer a gall cyfalaf cronfeydd gwaddol parhaol gael ei wario mewn amgylchiadau arbennig yn unig gyda'n caniatâd ni - gweler **Gwario ac Ailosod Gwaddol Parhaol** (**CC38**).

35. Mae deall natur cronfeydd gwahanol elusen yn hanfodol er mwyn deall ei sefyllfa ariannol. Rhaid ystyried hyn wrth ddadansoddi diddyledrwydd elusen.

Asedau sefydlog swyddogaethol

36. Yn yr un modd efallai fod gan yr elusen gronfeydd sylweddol sydd wedi'u chlymu mewn asedau sefydlog swyddogaethol. Fel rheol bwriedir i'r elusen eu defnyddio'n barhaus a gallai cael gwared â'r rhain olygu lleihad mewn gweithgareddau neu hyd yn oed fod yn groes i amcanion yr elusen. Gall fod yn anodd realeiddio gwerth asedau o'r fath yn gyflym, ac mae'n debyg bod cael gwared ag unrhyw asedau yn rhan o ailstrwythuro gweithgareddau yn gyffredinol.

Polisi cronfeydd wrth gefn

37. Argymhellwn fod gan elusennau bolisi cronfeydd wrth gefn cydlynus. Mae hwn yn cynnwys nodi lefel y cronfeydd wrth gefn rhydd y mae ei hangen arni i sicrhau bod gweithrediadau'n parhau yn unol â'i strategaeth gyffredinol. Bydd y broses o reoli cronfeydd wrth gefn yn darparu arf defnyddiol wrth sefydlogi'r elusen a sylweddoli'n gynnar bod yr elusen ar fin bod yn ansolfent.

38. Am fwy o wybodaeth edrychwch ar ein hadroddiadau ymchwil sy'n delio â'r pwnc yn fwy manwl - **Cronfeydd Wrth Gefn Elusennau** (**RS3**) ac **Elusennau Bach a Chronfeydd Wrth Gefn** (**RS5**). Mae'r rhain ar gael ar ein gwefan neu ar ffurf brintiedig.

Adnabod asedau a rhwymedigaethau a'u gwerth

39. Fel rheol mae mantolenni'n cael eu paratoi ar y sail y bydd yr elusen yn parhau'n fusnes byw yn y dyfodol agos. Yna gall asedau sefydlog swyddogaethol gael eu dangos ar werth cost neu werth y farchnad. Yr eithriad i hyn yw pan fo tystiolaeth bod ased sefydlog wedi'i amharu (gan achosi lleihad parhaol mewn gwerth); yna raid ei ddangos ar y gwerth isaf.

40. Tra bod y rhagdybiaeth o fusnes gweithredol yn dal yn wir gallai fod yn fwy priodol i ddefnyddio gwerthoedd y farchnad agored ar gyfer asedau wrth ystyried ansolfedd. Ond efallai y bydd angen newid gwerth asedau os nad yw'r sail busnes gweithredol yn gymwys mwyach oherwydd bod rhaid eu gwerthu am gost is.

41. Yn ogystal efallai fod rhwymedigaethau nad ydynt ar y fantolen megis ymrwymiadau a threuliau annisgwyl yn y dyfodol, a dylid ystyried y rhain. Rhaid i'r ymddiriedolwyr benderfynu a yw ymrwymiadau o'r fath yn gyfreithiol rwymol. Dylent ystyried hefyd a oes ymrwymiadau sydd, er nad yn gyfreithiol

rwymol, yn peri risg enw da sylweddol i'r elusen pe na chânt eu bodloni, ac felly gallant fod yn foesol rwymol mewn gwirionedd.

42. Gall fod rhwymedigaethau newydd hefyd sydd dim ond yn dod i'r amlwg adeg diddymu, ee costau diswyddo staff, costau sy'n codi wrth realeiddio asedau, a chostau proffesiynol.

Delio â sefyllfa ansolfent

43. Trwy gael system reoli a rheolaeth ariannol effeithiol gellir osgoi neu ragweld ansolfedd yn gynnar. Yn y bwlch rhwng nodi bod posibilrwydd o ansolfedd a dechrau gweithrediadau ansolfedd (neu yn achos elusen anghorfforedig, cyrraedd pwynt lle mae'r ymddiriedolwyr yn wynebu'r posibilrwydd o atebolrwydd personol) gall ymddiriedolwyr gymryd y camau mwyaf effeithiol i ddatrys y broblem.

44. Argymhellwn fod cyngor proffesiynol priodol yn cael ei gymryd yn gynnar, oherwydd mae angen ystyried a chynllunio camau cywirol yn ofalus. Dylai cyngor o'r fath fod yn ysgrifenedig, a dylai unrhyw gamau adferol a awgrymir gael eu monitro ynghyd â chyllidebau a llifau arian. Bydd cywirdeb y rhain yn dibynnu ar wybodaeth ariannol ddibynadwy a fydd yn fwy pwysig byth erbyn hyn. Wrth reoli'r broses hon cynghorir yr ymddiriedolwyr i gwrdd yn fwy aml a chadw cofnodion o benderfyniadau allweddol.

45. Pan fydd cyfarwyddwyr cwmni elusennol yn gwybod, neu y dylent wybod, nad oes unrhyw bosibilrwydd rhesymol o osgoi diddymiad ansolfent mae'n rhaid iddynt o'r adeg honno gymryd pob cam sydd ei angen i sicrhau'r colled lleiaf posib i gredydwyr y cwmni. Gall hyn gynnwys leihau neu atal rhai neu'r cyfan o weithgareddau'r elusen (ee peidio

â thalu grantiau hyd yn oed os ydynt wedi cael eu haddo). Ond gellir cyfiawnhau talu ffioedd proffesiynol am gyngor a gafwyd ar y sail bod yr ymddiriedolwyr yn cymryd y camau priodol i ddod o hyd i'r ffordd orau i ateb hawliadau credydwyr yr elusen.

46. Fel rheol bydd y penderfyniad i ddirwyn elusen anghorfforedig i ben yn un a gymerir yn wirfoddol yn unol â darpariaethau dogfen lywodraethol yr elusen.

47. Yn yr un modd, gall aelodau o gwmnïau elusennol ddiddymu'r cwmni yn wirfoddol. Gall y cwmni, neu ei gyfarwyddwyr neu ei gredydwyr, ddechrau diddymiad gorfodol neu weithrediadau rheoli dyledion eraill dan y Ddeddf Ansolfedd.

48. Fel rheol ni fydd y llys yn gorchymyn diddymiad gorfodol cwmni elusennol ar sail anallu i dalu dyledion hyd nes bod credydwr:

- naill ai wedi rhoi rhybudd cyfreithiol ffurfiol a elwir yn "orchymyn statudol", ac nid yw'r gorchymyn wedi cael ei ateb;

neu

- wedi cael barn y llys yn erbyn yr elusen, mewn perthynas â hawliad yn ei herbyn, ac nid yw'r hawliad hwnnw wedi cael ei fodloni.

49. Yn yr amgylchiadau hyn gall y credydwr ddeisebu'r llys i ddirwyn y cwmni i ben. Ar ôl i gwmni elusennol gael ei ddirwyn i ben, naill ai'n wirfoddol neu'n orfodol, mae'n cael ei roi dan reolaeth ymarferwr ansolfedd fel diddymwr. Yna mae'n rhy hwyr i'r cyfarwyddwyr weithredu eu hunain i achub yr elusen rhag bod yn ansolfent.

50. Er na all elusennau anghorfforedig gael eu dirwyn i ben yn orfodol gall eu hymddiriedolwyr wynebu gorchmynion cyfreithiol tebyg gan gredydwyr mewn perthynas â'r rhwymedigaethau a ddaeth iddynt ar ran yr elusen.

51. Os yw ymddiriedolwyr elusen anghorfforedig yn gweld nad oes unrhyw bosibilrwydd rhesymol o osgoi ansolfedd, mae er eu lles ariannol nhw i sicrhau, trwy leihau neu atal rhai neu'r cyfan o weithgareddau'r elusen, y bydd digon o eiddo yn yr ymddiriedolaeth i indemnio'r ymddiriedolwyr yn erbyn y gost o dalu'r holl ddyledion a bodloni'r holl rwymedigaethau a gawsant wrth weinyddu'r elusen.

52. Mae'r math o weithredu yn dibynnu ar natur pob elusen unigol a'r rhesymau am yr ansolfedd, a gall gynnwys y canlynol.

Delio â phrinder adnoddau sy'n dod i mewn

53. Gallai'r dulliau a ddefnyddir gynnwys:

- Lleihau neu gwtogi gwariant arfaethedig er mwyn lleihau lefel y treuliau i lefel sy'n is na lefel y derbyniadau.

- Datblygu ffynonellau cyllid eraill neu lansio apêl frys. Dylid gofalu bod unrhyw gronfeydd o'r fath yn ddigon anghyfyngedig i dalu'r credydwyr presennol. Rhaid i ymddiriedolwyr sicrhau bod rhoddwyr yn cael gwybod y gall y cronfeydd newydd a godir gael eu defnyddio i dalu dyledion yr elusen.

- Cynnal adolygiad o'r ymrwymiadau i weld a ydynt yn gyfreithiol rwymol neu'n ddewisol. Hyd yn oed lle mae cytundebau dan gontract yn bodoli gall fod cyfle i aildrafod.

Ailstrwythuro gweithrediad yr elusen

54. Gall hyn gynnwys derfynu rhai o weithgareddau'r elusen neu drosglwyddo rhai gweithgareddau i elusennau neu gwmnïau eraill. Gall fod modd realeiddio asedau sefydlog a buddsoddiadau i dalu credydwyr.

55. Gall fod cyfle hefyd i uno ag elusennau eraill sydd ag amcanion tebyg neu drafod gyda nhw i helpu bodloni'r ymrwymiadau dyledus.

56. Mae angen sicrhau bod unrhyw gynlluniau o'r fath yn golygu bod credydwyr yn cael eu talu'n foddhaol. Fel arall gall trosglwyddo asedau allan o elusen gynyddu'r perygl o atebolrwydd personol ar ran yr ymddiriedolwyr.

Ailariannu

57. Lle y bo'n bosib, gallai elusen fenthyca arian o'i chefnogwyr, heb log o bosib. Fel arall gellid benthyca arian gan fanc ar delerau masnachol, neu gallai'r elusen gychwyn ar drefniadau gwerthu ac adlesu ar gyfer rhai o'i hasedau.

58. Os oes gan elusen waddol parhaol gall fod yn bosib ceisio awdurdod gennym ni i fenthyca o'r cronfeydd hyn. Gellir cael mwy o wybodaeth am hyn yn ein harweiniad **Gwario ac Ailosod Gwaddol Parhaol** (**CC38**).

59. Ym mhob achos mae angen i'r elusen fod yn glir ynghylch ei defnydd arfaethedig o'r arian ac y bydd ad-dalu yn bosib.

Trefniadau gwirfoddol cwmnïau

60. Dan adran 1 i 7B y Ddeddf Ansolfedd gall cwmni elusennol lunio drefniadau gwirfoddol cwmni gyda'i gredydwyr lle bydd y credydwyr yn cytuno i dderbyn gostyngiad yn ei ddyled neu oedi yn y taliad. Gall cyfarwyddwyr y cwmni, neu weinyddydd neu ddiddymydd gynnig trefniadau o'r fath. Rhaid i'r cynnig a'r trefniadau gael eu harolygu a'u gweinyddu gan ymarferwr ansolfedd.

61. Mae modd i ymddiriedolwyr elusen anghorfforedig sy'n wynebu ansolfedd lunio trefniadau anffurfiol gyda'r credydwyr hynny y mae eu hawliadau wedi cael eu cynhyrchu o ganlyniad i weithgaredd yr ymddiriedolaeth. Gallai'r credydwyr dan drefniadau o'r fath gytuno i ohirio talu'r dyledion a'r rhwymedigaethau sydd wedi codi i'r ymddiriedolwyr ar ran eu helusen, a/neu gytuno i leihau maint eu hawliadau. Mae trefniadau o'r fath y tu allan i ddarpariaethau'r Ddeddf Ansolfedd: os yw'r trefniadau yn gyfreithiol rwymol, bydd yn rhwymo'r credydwyr hynny sy'n barti iddo yn unig. Argymhellir bod cyngor proffesiynol priodol yn cael ei geisio cyn arwyddo cytundeb o'r fath.

62. Cewch fanylion am y mathau gwahanol o weithrediadau ansolfedd cwmni (heblaw trefniadau gwirfoddol cwmni) yn yr Atodiad i'r arweiniad hwn.

Atebolrwydd ymddiriedolwyr

Dyletswydd ymddiriedolwyr

63. Mae dyletswydd ar ymddiriedolwyr elusennau i weithredu'n ddoeth wrth weinyddu materion ariannol yr elusen. Mae'n rhaid iddynt sicrhau rheolaeth ariannol ddoeth a chydymffurfio â'r gyfraith, gan gynnwys y gyfraith ansolfedd. Mae sefyllfa gyfreithiol ymddiriedolwyr elusen mewn achos o ansolfedd yn amrywio yn ôl cyfansoddiad yr elusen.

Elusennau anghorfforedig

64. Fel y nodwyd ym mharagraff 9, os yw rhwymedigaeth wedi codi'n briodol i ymddiriedolwyr elusen anghorfforedig, ond nid oes gan yr elusen ddigon o asedau i fodloni'r rhwymedigaeth, mae'r rhaid i'r ymddiriedolwyr hynny dalu'r diffyg yn bersonol. Gall y modd y mae'r diffyg hwn yn cael ei rannu rhwng yr

ymddiriedolwyr ddibynnu ar delerau'r cytundeb y deilliodd y rhwymedigaeth ohono, ond fel rheol bydd y credydwr yn gallu erlyn unrhyw ymddiriedolwyr am y rhwymedigaeth gyfan. Gall ymddiriedolwr sy'n rhaid talu mwy na'i gyfran hawlio cyfraniad teg o'r ymddiriedolwyr eraill. Mewn gwirionedd mae hyn yn golygu y bydd unrhyw ddiffyg yn cael ei rannu'n gyfartal rhwng yr ymddiriedolwyr y gellir dod o hyd iddynt, ac sy'n gallu talu, oni bai eu bod yn cytuno fel arall ymhlith ei gilydd.

Cwmnïau elusennol

65. Os yw elusen wedi cael ei hymgorffori dan y Deddfau Cwmnïau fel rheol bydd y cwmni ei hun yn atebol i dalu'r dyledion a ddaeth i'r cyfarwyddwyr ar ei ran. Fel rheol mae cwmnïau elusennol yn gyfyngedig drwy warant ac ni fydd *aelodau'r* cwmni yn atebol i dalu dyledion y cwmni heblaw swm eu gwarant (swm nominal fel arfer). Fel rheol ni fydd y cyfarwyddwyr eu hunain yn atebol yn bersonol am ddyledion y cwmni, oherwydd eu bod yn gweithredu fel asiantau'r cwmni (oni bai, wrth gwrs, eu bod yn gwarantu talu'r dyledion yn bersonol).

66. Ond, fel asiantau'r cwmni:

- mae gan y cyfarwyddwyr rai dyletswyddau ymddiriedol, a gallant fod yn atebol i wneud taliadau i'r cwmni, os yw'r colled yn deillio o dor-ddyletswydd; ac

- mewn rhai achosion gallant golli eu diogelwch arferol rhag atebolrwydd personol uniongyrchol i'r bobl y maent yn delio â hwy ar ran y cwmni.

67. Er enghraifft:

- Fel y nodwyd ym mharagraff 10, nid yw asedau a ddelir gan gwmni elusennol fel ymddiriedolwr, yn hytrach na fel rhan o'i eiddo corfforaethol, yn ffurfio rhan o'r eiddo sydd ar gael i'w ddosbarthu i gredydwyr y cwmni yn unol â chyfraith ansolfedd cwmnïau. Dim ond rhwymedigaethau sydd wedi codi'n briodol wrth weinyddu'r ymddiriedolaeth arbennig all gael eu bodloni o eiddo'r ymddiriedolaeth. Gall y cwmni elusennol gyflawni tor-ddyletswydd fel ymddiriedolwr os yw'n caniatáu i'r asedau sy'n cael eu dal ar ymddiried gael eu dosbarthu i'w gredydwyr fel pe bai'r asedau hynny yn rhan o eiddo corfforaethol yr elusen. Felly gallai unrhyw gyfarwyddwr, diddymwr ac ati sy'n gyfrifol am ymrwymo cwmni elusennol i dor-ddyletswydd o'r fath fod yn gweithredu'n groes i'w dyletswydd ymddiriedol tuag at yr elusen. Felly, gallent fod yn atebol i wneud iawn am golled o eiddo'r ymddiriedolaeth.

- Wrth ddirwyn i ben cwmni elusennol nad yw'n gallu talu ei holl ddyledion, gall cyfarwyddwr gael ei orchymyn gan y llys i gyfrannu at asedau'r cwmni os yw'n ymddangos, cyn adeg dirwyn y cwmni i ben, ei fod ef neu hi:

    - yn gwybod, neu dylai ef neu hi fod wedi gwybod, nad oedd unrhyw bosibilrwydd rhesymol y byddai'r elusen yn osgoi'r sefyllfa lle na fyddai'n gallu talu ei holl ddyledion; ond

    - wedi parhau i ymgymryd â busnes heb gymryd pob cam i geisio lleihau'r colledion posib i gredydwyr yr elusen.

Mae'r cyfraniad yn ofynnol yn benodol at ddiben lleihau colledion y credydwyr. Mae'r cyfarwyddwr yn cael ei farnu yn ôl safonau cyfarwyddwr rhesymol yn ogystal â thrwy gyfeirio at ei alluoedd unigol.

- Os yw rhywun yn gweithredu fel cyfarwyddwr cwmni elusennol tra ei fod wedi'i wahardd rhag gwneud hynny, mae ef neu hi yn atebol yn uniongyrchol i'r credydwyr am unrhyw rwymedigaethau'r cwmni sy'n codi tra bod ef neu hi yn ymwneud â rheoli'r cwmni. Mae hyn yn gymwys os yw wedi cael ei benodi'n ffurfiol fel cyfarwyddwr neu beidio. Mae manylion llawn am faterion o'r fath i'w gweld yn Neddf Anghymhwyso Cyfarwyddwyr Cwmnïau 1986. Mae gweithredu fel ymddiriedolwr tra rydych wedi'ch gwahardd yn drosedd hefyd dan adran 73 Deddf 1993.

Ymddiriedolwyr corfforedig

68. Mae Rhan VII Deddf 1993 hefyd yn caniatáu ar gyfer ymgorffori corff ymddiriedolwyr elusen anghorfforedig. Mae hyn yn golygu y bydd y corff ymddiriedolwyr cyfan yn gallu arwyddo contractau neu ymrwymiadau eraill fel endid corfforaethol yn hytrach nag ymddiriedolwyr unigol, ond bydd yr ymddiriedolwyr unigol yn parhau i fod yn atebol yn bersonol am ddyledion yr elusen. Cewch ragor o wybodaeth am hyn yn ein canllaw **Ymgorffori Ymddiriedolwyr Elusennau** (**CC43**).

Ymddiriedolwyr gwarchod ac ymddiriedolwyr daliannol

69. Bydd elusennau anghorfforedig yn rhoi eiddo yn enw un neu ragor o'r ymddiriedolwyr daliannol neu ymddiriedolwr gwarchod yn aml iawn. Ar yr amod nad oes gan ymddiriedolwyr o'r fath unrhyw reolaeth neu reolaeth ariannol dros yr elusen a dim ond yn dal yr eiddo ar ran yr elusen, nid ydynt yn

ymddiriedolwyr elusen, ac felly ni fyddant yn atebol yn bersonol am unrhyw rai o ddyledion yr elusen. Fodd bynnag, gall ymddiriedolwr gwarchod fod yn atebol os yw'n caniatáu neu'n cynorthwyo ymddiriedolwyr elusen i gyflawni tor-ymddiriedaeth.

Rôl y Comisiwn Elusennau

70. Fe'n gwaherddir yn ôl y gyfraith rhag cymryd rhan yng ngweinyddiad mewnol elusen, gan gynnwys ailstrwythuro ac ailariannu. Rhaid i faterion sy'n ymwneud â dichonoldeb ariannol fod yn fater i ymddiriedolwyr elusen a'u hymgynghorwyr proffesiynol.

71. Os yw diddyledrwydd yn fater i'w ystyried gall fod fudd rheoleiddiol gennym. Yn yr achosion hyn efallai y bydd angen i ni sicrhau rheolaeth briodol yr elusen a bod yr ymddiriedolwyr yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau a'u dyletswyddau mewn amgylchiadau anodd o'r fath.

72. Nid yw'r rhesymau dros fethdaliad yn amlwg bob tro, felly gallwn ofyn am wybodaeth ariannol a gweinyddol manwl er mwyn pennu:

- a yw rheolaethau ariannol a gweinyddol cadarn yn bodoli;
- a yw gwybodaeth brydlon a manwl-gywir ar gael i'r ymddiriedolwyr seilio eu penderfyniadau arni;
- a oes gan ymddiriedolwyr elusen gynllun clir ynglŷn â sut y bydd y broblem o ansolfedd yn cael ei datrys;
- a yw cyngor proffesiynol priodol wedi cael ei geisio;

- a yw unrhyw ddiddymiad neu ddirwyn i ben yn digwydd mewn modd priodol a threfnus;

- a yw unrhyw asedau sy'n weddill ar ôl talu'r holl ddyledion wedi cael eu defnyddio'n briodol at ddibenion elusennol.

73. Os yw camreoli neu gamweinyddu yn cael ei amau gallwn gychwyn ymchwiliad dan adran 8 Deddf 1993. Ymdrinnir â hyn yn ein canllaw **Cwynion am Elusennau** (**CC47**).

74. Os yw elusen yn cael ei hymchwilio dan adran 8 mae'r pŵer gennym benodi derbynnydd a rheolwr dan adran 18 Deddf 1993 (ni ddylid cymysgu hyn â derbynnydd a benodir er budd credydwr elusen gwarantedig naill dan y Ddeddf Ansolfedd neu fel arall).

75. Gellir gwneud penodiadau o'r fath os ydym yn fodlon nad yw'r ymddiriedolwyr wedi gweithredu'n briodol, neu os credwn fod perygl i eiddo'r elusen. Mewn rhai achosion gellid gwneud y penodiad mewn cydweithrediad â'r ymddiriedolwyr.

76. Gall derbynnydd a rheolwr gael ystod o gyfarwyddiadau gennym ac fel rheol mae'n cyflawni rôl yr ymddiriedolwyr am gyfnod ei benodiad. Gallai hyn gynnwys adolygu dichonoldeb cyffredinol yr elusen.

Diddymu elusennau ansolfent

Dyletswyddau cyfreithiol i gadw'r Gofrestr yn gyfoes

77. Mae dyletswydd ar ymddiriedolwyr i ddweud wrthym pan fydd eu helusen wedi dirwyn i ben. Dan adran 3(4) Deddf 1993 mae dyletswydd arnom ddileu elusennau o'r Gofrestr Ganolog Elusennau os ydynt yn peidio â bodoli neu'n peidio â gweithredu.

Cwmnïau elusennol

78. Gall cwmnïau elusennol gael eu diddymu heb ddirwyn i ben, ond os cânt eu dirwyn i ben, gwneir hyn trwy weithrediadau ansolfedd ffurfiol os yw'n wirfoddol neu beidio.

79. Byddem yn disgwyl i'r diddymwr gydgysylltu â ni ynglŷn ag unrhyw ddogfennaeth sydd ei hangen i ddileu'r elusen o'r Gofrestr pan gaiff ei diddymu. Hefyd byddem yn disgwyl i'r diddymwr roi gwybod i ni yn ddiweddarach pan fydd y diddymiad wedi cael ei gwblhau ac mae'r cwmni wedi cael ei ddiddymu dan Ddeddf Cwmnïau 1985.

Elusennau anghorfforedig

80. Ar gyfer elusen anghorfforedig nid yw unrhyw weithrediadau ansolfedd statudol yn bodoli. Ymddiriedolwyr elusen fydd yn penderfynu dirwyn yr elusen i ben mewn modd trefnus, gan geisio cyngor proffesiynol priodol fel y bo angen. Dylid nodi'r holl asedau a rhwymedigaethau. Dylai unrhyw asedau sy'n weddill ar ôl eu dosbarthu i dalu hawliadau priodol credydwyr gael eu defnyddio gan yr ymddiriedolwyr yn unol â'r ddarpariaeth ddiddymu yn nogfen lywodraethol yr elusen. Os nad oes darpariaeth ddiddymu o'r fath dylent geisio ein cyngor ni.

81. Er mwyn bodloni'r gofynion cyfreithiol, dylai'r ymddiriedolwyr, ar ôl defnyddio holl eiddo'r elusen, anfon y canlynol atom:

- copi o'r penderfyniad i ddirwyn yr elusen i ben;

- y set olaf o gyfrifon a ddylai, ar gyfer elusennau sydd ag incwm neu wariant sy'n fwy na £10,000 yn y cyfnod y mae'r cyfrifon yn cyfeirio ato, fod yn destun yr archwiliad allanol statudol priodol (bydd angen rhoi gwybod i ni pan nad oes digon o arian i dalu costau archwiliad allanol pan fydd yr elusen yn peidio â bodoli oherwydd ansolfedd); a

- datganiad o ddosbarthiad terfynol asedau os na ddangosir hyn yn y cyfrifon (dylai hyn gael ei arwyddo gan yr ymddiriedolwyr ac, os oes modd, yr archwiliwr neu'r archwiliwr allanol).

82. Pan fyddwn yn fodlon â'r wybodaeth a anfonwyd atom bydd yr elusen yn cael ei dileu o'r Gofrestr.

Ein nod yw gwneud ein cyhoeddiadau mor ddefnyddiol a darllenadwy ag y bo modd. Os oes gennych unrhyw awgrymiadau ynglyn â gwella'r llyfryn hwn, ysgrifennwch at y Rheolwr Argraffu a Chyhoeddi yn ein Swyddfa yn Taunton.

© Hawlfraint y Goron 2005. Gellir atgynhyrchu'r cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r Arfau Brenhinol a logos adrannol) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei atgynhyrchu yn fanwl gywir ac ni chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod bod y deunydd yn hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y cyhoeddiad. Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael hefyd ar wefan yr adran: www.charitycommission.gov.uk

Atodiad

Mathau o weithrediadau

A1. Dyma'r gweithrediadau cyfreithiol y mae'r Ddeddf Ansolfedd yn gwneud darpariaeth ar eu cyfer (ar wahân i drefniadau gwirfoddol cwmni) ac felly maent yn berthnasol i **gwmnïau elusennol** yn unig.

A2. **Dirwyn i ben**. Pan fydd cwmni elusennol yn cyrraedd diwedd ei oes defnyddiol (oherwydd ni all dalu ei ddyledion mwyach, er enghraifft) gellir ei ddiddymu (gweler paragraffau A13 ac A14). Bydd Derbynnydd Swyddogol neu ymarferwr ansolfedd yn cael ei benodi'n ddiddymwr i ddirwyn materion yr elusen i ben, realeiddio ei hasedau a dosbarthu'r elw i'r credydwyr. Bydd unrhyw warged sy'n weddill ar ôl talu'r credydwyr yn cael ei ddosbarthu yn unol â memorandwm ac erthyglau'r cwmni.

A3. **Moratoriwm**. Os yw cyfarwyddwyr cwmni cymwys yn bwriadu gwneud cynnig ar gyfer trefniant gwirfoddol, gallant gymryd camau i gael moratoriwm ar gyfer y cwmni. Mae hyn yn cael ei weithredu trwy gyflwyno'r trefniant gwirfoddol arfaethedig gerbron y llysoedd gyda chymeradwyaeth enwebai sy'n rhaid bod yn ymarferwr ansolfedd. Prif effeithiau moratoriwm o'r fath yw atal deiseb rhag cael ei chyflwyno ar gyfer dirwyn cwmni i ben, ac atal deiseb am orchymyn gweinyddu rhag cael ei gyflwyno neu benodi derbynnydd gweinyddol. Mae hefyd yn rhwystro landlord rhag ymarfer unrhyw hawl fforffedu eiddo sydd wedi'i osod i'r cwmni ac yn atal gorfodi unrhyw warant dros eiddo'r cwmni ar gyfer cyfnod y moratoriwm.

A4. Mae cwmni yn gymwys i wneud cais am foratoriwm o'r fath os, yn arbennig, yw'n bodloni unrhyw ddau o'r gofynion ar gyfer bod yn elusen fach, fel a bennwyd yn adran 247(3)

Deddf Cwmnïau 1985. Ar hyn o bryd y gofynion yw trosiant o ddim mwy na £2.8m, cyfanswm mantolen o ddim mwy na £1.4m a dim mwy na 50 o weithwyr. Gall gael ei eithrio rhag bod yn gymwys os, er enghraifft, yw gorchymyn gweinyddu eisoes mewn grym, mae derbynnydd gweinyddol wedi cael ei benodi, mae trefniant gwirfoddol eisoes yn weithredol neu os yw moratoriwm cynharach wedi bod yn weithredol yn ystod y deuddeg mis diwethaf.

A5. **Gweinyddiaeth**. Mae hyn yn gymwys i elusennau sy'n gwmnïau cyfyngedig. Mae newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf Menter 2002 (Atodlen B1) wedi symleiddio'r broses weinyddu er mwyn ei gwneud yn gyflymach, yn decach gyda ffocws ar achub trwy:

- Gyflwyno llwybrau i weinyddiad heb orchmynion llys ar gyfer deiliaid tâl nofiol, cwmnïau (hy elusennau eu hunain) a'u cyfarwyddwyr.

- Dileu biwrocratiaeth a darparu terfynau amser clir.

- Cynorthwyo i achub cwmnïau dichonadwy (elusennau) a chael canlyniadau gwell i gredydwyr cwmnïau (elusennau) na ellir eu hachub.

A6. Mae gweinyddiad yn drefn gasgliadol ac mae'n ofynnol i weinyddwr ymgymryd â'i swyddogaethau er lles credydwyr y cwmni (elusen) cyfan. Hyd yn oed oes nad oes arian ar gael i'r credwyr anwarantedig, gall gweinyddwr weithredu mewn ffordd nad yw'n niweidio yn ddiangenrhaid fuddiannau credydwyr y cwmni (elusen) cyfan.

A7. Mae'r Ddeddf Menter yn cymryd lle pedwar diben statudol blaenorol gweinyddiad gydag un diben sydd wedi'i ffurfio o dri amcan,

y dylai'r gweinyddwr eu hystyried yn eu tro. Rhaid i'r gweinyddwr gyflawni ei swyddogaethau gyda'r nod o:

(1) Achub y cwmni (elusen) fel busnes byw, a ddylai olygu cadw cymaint â phosib o'i fusnes.

(2) Cael canlyniad gwell i'r credydwyr cyfan nag y byddai'n debygol mewn achos o ddirwyn i ben ar unwaith, er enghraifft trwy werthu'r busnes(au) neu ei asedau. Gellir dilyn yr amcan hwn dim ond os nad yw achub yn rhesymol ymarferol, neu byddai'n rhoi canlyniad gwell i'r credydwyr nag amcan 1.

(3) Realeiddio eiddo'r cwmni (elusen) er mwyn ei ddosbarthu i un neu ragor o'r cedydwyr gwarantedig neu ffafriol. Gellir dilyn yr amcan hwn dim ond os nad yw'n rhesymol ymarferol i gyflawni naill ai amcan 1 neu 2.

A8. Ni ddylid ystyried gweinyddiaeth yn ddewis arall i ddatodiad mewn achosion lle yn dylai materion y cwmni (elusen) gael eu dirwyn i ben ac nid oes budd i'r credydwyr o fasnachu gyda diogelwch y moratoriwm gweinyddu.

A9. Am wybodaeth bellach ynghylch y broses weinyddu newydd hon, ymwelwch â www.insolvency.gov.uk/draftenterprise/AdministrationGuidanceNotes.doc a hefyd www.insolvency.gov.uk/faqeactc.htm.

A10. **Derbynyddiaeth (Rhan III)**. Pan nad yw elusen yn talu unrhyw gredydwr gyda thâl sefydlog dros ased (tir neu adeiladau fel rheol), yna efallai y bydd y credydwr eisiau ymarfer pŵer statudol neu benodol i benodi derbynnydd. Mae gan y derbynnydd bŵer dros yr ased hwn yn unig ac fel rheol bydd yn ceisio

gwerthu'r ased er mwyn ad-dalu'r credydwr. Yn dechnegol ni all y derbynnydd weinyddu'r elusen oni bai fod y derbynnydd hefyd yn cael ei benodi i'w reoli, ond mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr ddilyn cyfarwyddiadau'r derbynnydd mewn perthynas â'r ased y mae'r tâl yn bodoli drosto.

A11. **Derbynyddiaeth Weinyddol (Rhan IV)**. Os yw elusen yn landlord cymdeithasol cofrestredig hefyd, gall credydwr sydd â thâl nofiol mewn perthynas ag eiddo'r cwmni elusennol, mewn amgylchiadau cyfyngedig iawn, benodi ymarferwr ansolfedd fel derbynnydd gweinyddol. Mae'r derbynnydd gweinyddol yn rheoli'r asedau ac fel rheol yn eu gwerthu er mwyn codi arian i ad-dalu'r credydwr gwarantedig, er y gall ef neu hi barhau â gweithgareddau'r cwmni os yw o'r farn y byddai hyn yn fuddiol yn ariannol.

Mathau o ddiddymu

A12. **Pwy all weithredu?** Mae'n rhaid i'r person sy'n gweithredu ym mhob un o'r swyddi uchod, ac eithrio derbynnydd, fod yn ymarferwr ansolfedd.

A13. **Diddymu gorfodol**. Os yw cwmni elusennol yn methu prawf ansolfedd (gweler paragraff 6) gall deiseb gael ei chyflwyno i'r llys i ddiddymu'r cwmni. Os yw'r llys yn derbyn y ddeiseb mae'r Derbynnydd Swyddogol yn troi'n ddiddymydd i ddirwyn yr elusen i ben oni bai a hyd nes y daw rhywun yn ei le yn unol â darpariaethau'r Ddeddf Ansolfedd. Fel rheol mae ceisiadau o'r fath yn cael eu cyflwyno gan gredydwyr, ond gall cyfarwyddwyr ac eraill wneud hynny hefyd.

A14. **Diddymu gwirfoddol credydwyr**. Fel arall gall cyfarwyddwyr cwmni elusennol ansolfent drefnu iddo gael ei ddiddymu'n wirfoddol. Mae'n rhaid i aelodau'r cwmni basio

penderfyniad i'r cwmni gael ei ddirwyn i ben. Gall yr aelodau hefyd benodi ymarferwr ansolfedd fel diddymwr, ond mae hawl gan y credydwyr benodi ymarferwr o'u dewis yn lle'r sawl a enwebwyd gan yr aelodau.

Newidiadau o pwysig ers y fersiwn blaenorol o'r canllaw hwn

Dyddiad y fersiwn blaenorol o'r canllaw hwn oedd Ionawr 2000.

Mae'r newidiadau arwyddocaol a gyflwynwyd yn y fersiwn hwn yn adlewyrchu newidiadau perthnasol i'r gyfraith a gyflwynwyd gan Ddeddf Ansolfedd 2000 a Deddf Menter 2002 yn bennaf. Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn yr Atodiad yn bennaf.

Rhoddir manylion hefyd am gronfa ddata'r Gwasanaeth Ansolfedd o ymarferwyr ansolfedd (paragraff 18).

Mae newidiadau eraill wedi cael eu gwneud i gadw'r testun mor gyfoes â phosib, gan gynnwys cyfeiriadau priodol at arweiniad a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar bynciau cysylltiedig.

Rhagor o Wybodaeth

Efallai y bydd o ddefnydd i chi droi at y cyhoeddiadau canlynol gan y Comisiwn Elusennau:

CC2 Elusennau a'r Comisiwn Elusennau

CC3 Yn Ymddiriedolwr Hanfodol: Yr hyn y mae angen i chi wybod

CC8 Rheolaeth Ariannol Fewnol ar gyfer Elusennau

CC14 Buddsoddi Arian Elusennau

CC19 Cronfeydd Wrth Gefn Elusennau

CC35 Elusennau a Masnachu

CC38 Gwario ac Ailosod Gwaddoliad Parhaol

CC43 Ymgorffori Ymddiriedolwyr Elusennau

CC49 Elusennau ac Yswiriant

CC60 Nodweddion Elusen Effeithiol

All of our publications are available in English. For information on availability please call Charity Commission Direct on 0845 300 0218.

Am restr gyflawn o'n holl gyhoeddiadau a casetiau sain, gofynnwch am:

CC1 Cyhoeddiadau'r Comisiwn Elusennau

I gael copïau o unrhyw un o'r cyhoeddiadau uchod, gallwch naill ai:

- edrych arnynt a'u hargraffu o'n gwefan: **www.charitycommission.gov.uk**;
- eu harchebu yn ystod oriau swyddfa (08:30 - 18:00 yn ystod yr wythnos) trwy ffonio ni ar **0845 300 0218**; neu
- ysgrifennwch i **Comisiwn Elusennau Uniongyrchol, Blwch SP 1227, Lerpwl, L69 3UG.**

SEC-G5002 V6 9/05